# Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015

**2015 dccc 1**

**RHAN 2**

CYNLLUNIAU FFIOEDD A MYNEDIAD

*Cydymffurfio â'r terfyn ffioedd*

**10 Terfynau ar ffioedd myfyrwyr**

(1) Rhaid i gorff llywodraethu sefydliad o fewn is-adran (2) sicrhau nad yw ffioedd cwrs rheoleiddiedig yn mynd uwchlaw'r terfyn ffioedd cymwys.

(2) Mae sefydliad yn dod o fewn yr is-adran hon os yw cynllun ffioedd a mynediad sy'n ymwneud ag ef wedi ei gymeradwyo o dan adran 7 (pa un a yw'r cynllun hwnnw mewn grym o hyd ai peidio).

(3) "Ffioedd cwrs rheoleiddiedig" yw'r ffioedd sy'n daladwy i'r sefydliad gan berson cymhwysol—

(a) mewn cysylltiad â'r person yn ymgymryd â chwrs cymhwysol, a

(b) mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd sy'n gymwys i'r cwrs hwnnw, pan fo'r flwyddyn honno yn dechrau ar adeg o fewn y cyfnod a bennir o dan adran 4 yng nghynllun ffioedd a mynediad diweddaraf y sefydliad (pa un a yw'r cynllun hwnnw mewn grym o hyd ai peidio).

(4) Cynllun ffioedd a mynediad diweddaraf y sefydliad yw'r cynllun ffioedd a mynediad a gymeradwywyd yn fwyaf diweddar o dan adran 7 mewn perthynas â'r sefydliad.

(5) Y terfyn ffioedd cymwys yw—

(a) mewn achos pan fo cynllun ffioedd a mynediad diweddaraf y sefydliad yn pennu terfyn ffioedd ar gyfer y cwrs a'r flwyddyn o dan sylw, y terfyn hwnnw;

(b) mewn achos pan fo cynllun ffioedd a mynediad diweddaraf y sefydliad yn darparu ar gyfer penderfynu ar derfyn ffioedd ar gyfer y cwrs a'r flwyddyn o dan sylw, y terfyn hwnnw fel y penderfynir arno yn unol â'r cynllun.

***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

**11 Cyfarwyddydau cydymffurfio ac ad-dalu**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo CCAUC wedi ei fodloni bod corff llywodraethu sefydliad wedi methu â chydymffurfio ag adran 10(1).

(2) Caiff CCAUC gyfarwyddo'r corff llywodraethu i wneud naill ai un o'r canlynol neu'r ddau—

(a) cydymffurfio ag adran 10(1);

(b) ad-dalu'r ffioedd uwchlaw'r terfyn a dalwyd i'r sefydliad.

(3) Caiff cyfarwyddyd o dan yr adran hon ("cyfarwyddyd cydymffurfio ac ad-dalu") bennu—

(a) y camau sydd i'w cymryd (neu nad ydynt i'w cymryd) gan y corff llywodraethu at y diben o gydymffurfio ag adran 10(1);

(b) y modd y mae ad-dalu'r ffioedd uwchlaw'r terfyn i fod i gael ei roi ar waith, neu y gall gael ei roi ar waith.

(4) Os yw CCAUC yn rhoi cyfarwyddyd o dan yr adran hon, rhaid iddo—

(a) rhoi copi o'r cyfarwyddyd i Weinidogion Cymru;

(b) cyhoeddi'r cyfarwyddyd.

(5) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch sut a phryd y mae CCAUC i gydymffurfio ag is-adran (4).

(6) Mae "ffioedd uwchlaw'r terfyn" yn ffioedd cwrs rheoleiddiedig, i'r graddau y mae'r ffioedd hynny yn mynd uwchlaw'r terfyn ffioedd cymwys (fel y'i meintiolir at ddibenion y ddyletswydd o dan adran 10(1) y mae'r corff llywodraethu wedi methu â chydymffurfio â hi).

**12 Darpariaeth atodol ynghylch cyfarwyddydau cydymffurfio ac ad-dalu**

(1) Caiff CCAUC ddyroddi canllawiau ynghylch y camau sydd i'w cymryd at y diben o gydymffurfio â chyfarwyddyd cydymffurfio ac ad-dalu.

(2) Cyn dyroddi canllawiau o dan yr adran hon, rhaid i CCAUC ymgynghori â chorff llywodraethu pob sefydliad rheoleiddiedig; a chaiff ymgynghori â chorff llywodraethu unrhyw sefydliad arall o fewn adran 2(3) sy'n briodol yn ei farn ef.

(3) Rhaid i gorff llywodraethu y mae cyfarwyddyd cydymffurfio ac ad-dalu wedi ei roi iddo, wrth gydymffurfio â'r cyfarwyddyd, ystyried unrhyw ganllawiau a ddyroddir o dan yr adran hon.

(4) Am y ddarpariaeth weithdrefnol ynghylch cyfarwyddydau cydymffurfio ac ad-dalu, gweler adrannau 41 i 44.